

OWEN, JEREMY (fl. 1704-44), gweinidog Presbyteraidd ac awdur

Enw: Jeremy Owen

Rhiant: David John Owen

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: gweinidog Presbyteraidd ac awdur

Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu

Awdur: Robert Thomas Jenkins

Mab David John Owen o'r Bryn, Abernant, Caerfyrddin (1651? - 1710), ac felly nai i **James Owen** ac i **Charles Owen**. Bu'r tad (a breswyliai ym Mhwlhwyaid) am amser maith yn henuriad athrawiaethol yng nghynulleidfa Henllan Amgoed, cyn ei urddo'n fugail arni tua 1705. Fel ei frawd **James**, yr oedd ef yn dilyn Baxter yn ei ddiwinyddiaeth, ac yn Presbyteraidd ei syniadau ar drefn eglwysig. Ond yr oedd yn Henllan elfen gref o uchel-Galfiniaeth ac o 'gynulleidfaoliaeth,' a arweinid gan Lewis Thomas, Bwlch-y-sais, un arall o'r henuriad athrawiaethol yno. Diwedd mwy nag un ymgais gan weinidogion y cyffiniau i dawelu'r storm fu diarddel Lewis Thomas a'i bleidwyr - aethant hwy allan i sefydlu eglwys newydd, yn Rhyd-y-ceisiaid.

Pan fu farw D. J. Owen (7 Hydref 1710), urddwyd ei fab Jeremy, gŵr ieuanc o gryn allu, i'w ddilyn, yn 1711. Anhysbys yw amser ei eni. Bu yn ysgol ei ewythr yn Amwythig, yn gyfoed ac yn gyfaill i **Thomas Perrot(t)**. Plannodd ei ewythr ynddo nid yn unig ysgolheictod glasurol dda ond hefyd y golygiadau 'cymedrol' a gysylltir â'i enw ef ei hun. Torrodd anghydfod o'r newydd allan yn Henllan, ac ymadawodd haid arall i Ryd-y-ceisiaid, dan arweiniad **Mathias Maurice** a **Henry Palmer**. Wedyn (tua 1715) bu raid i Jeremy Owen ymddiswyddo o'i ofalaeth, yn herwydd rhyw gam-ymarweddiad, anhysbys ei natur ond a addefir ganddo ef ei hunan. Fe'i ceir yn cadw ysgol yn Llundain yn 1718; bu'n weinidog yn Petworth (1721-6), Barnet (1726-32), a Princes Risborough (1733-44). Aeth wedyn i America (**T. Rees**, *Hist. Prot. Noncon.*, ail arg., 294), lle y bu farw, ni wyddys pa bryd.

Yn y cyfamser yr oedd *Byr Hanes Mathias Maurice*, 1727, o helyntion Henllan wedi cyfroi Jeremy Owen i gyhoeddi ateb, *Golwg ar y Beiau sydd yn yr Hanes a Brintiwyd ynghylch Pedair i Bump Mlynedd i nawr, ym mherthynas i'r Rhwygiad a wnaethpwyd yn Eglwys Henllan yn y Blynyddoedd 1707, 1708, 1709* (Caerfyrddin, 1732/3; ail argraffiad, Gwasg Prifysgol Cymru, 1950), pamffled wedi ei sgrifennu mewn Cymraeg cadarn o'r rhywiocaf, a chyda medr dadleuol cwbl ddirugaredd. Nodir gweithiau eraill yr awdur yn *Llyfryddiaeth y Cymry*, dan 1711 a 1713; ond anghywir oedd priodoli yno iddo bregeth angladdol ar ei ewythr **Charles Owen**, dan 1746, a gwaith arall yn yr un flywyddyn. Awdur y rheini oedd JOSIAH OWEN (1711 - 1755); gweler *Hanes Eglwys Annibynnol Cymru*, iii, 360. Y mae ysgrif ar hwnnw yn y *D.N.B.*; yn sicr, yn ôl ei dystiolaeth ef ei hun, yr oedd yntau'n un o deulu'r Bryn. Fe allai fod yn fab arall i D. J. Owen (mab, os felly, a aned wedi marw ei dad), h.y. yn frawd i Jeremy, neu o bosibl yn fab i Evan John Owen o blwyf Cyffig, y tybir (*Hanes Eglwys Annibynnol Cymru*, iii, 338) ei fod yn un o feibion y Bryn.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Hanes Eglwys Annibynnol Cymru, iii, 338-40, 357-60

Owen Jones, 'Jeremi Owen,' yn *Y Traethodydd*, 1887, 128-140, 400-412 (gyda dyfyniadau helaeth o weithiau Jeremy Owen)

D. M. Lewis yn *Y Cofiadur*, 1925, 22-49

T. Richards yn *A History of Carmarthenshire*, ii (1939), 165-70

Walter J. Evans, NLW MS 10329B: Carmarthen Presbyterian College roll of students

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Jeremy Owen

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q18535847

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Jenkins, R. T., (1953). OWEN, JEREMY (fl. 1704-44), gweinidog Presbyteraidd ac awdur. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 12 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-OWEN-JER-1704>

Preifatrwydd a Chwciis
Hawffraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Yn ddiolch i
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government